

Y Grŵp Gwneud Penderfyniadau ar Gynllunio Morol

20 Tachwedd 2019



Yn Bresennol

Phil Coates, Rafe Osborne a Rebecca Rees (Llywodraeth Cymru), Rachel Mulholland (Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu), Claire Kavanagh a Mel Nicholls (Y Sefydliad Rheoli Morol), Karen Perrow a Peter Morrison (Cyfoeth Naturiol Cymru), Teresa Davies (Llywodraeth Cymru – Cynllunio), Thomas Bulpit a Helen Croxson (Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau), Laura Nokes (Y Weinyddiaeth Amddiffyn), Alan Groves (Llywodraeth Cymru – Cynllunio), John Williams (Cyngor Ynys Môn), Eunice Pinn (Seafish), Wayne Hope (Cyngor Sir Ddinbych), Inger Soderstrom (Rheoleiddd Petrolewm Alltraeth ar gyfer yr Amgylchedd a Datgomisiynu), Sharon Davies (Llywodraeth Cymru – Trwyddedu Morol)

1. Ar 12 Tachwedd gwnaeth Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig [ddatganiad llafar](#) yn mabwysiadu ac yn cyhoeddi [Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru \(WNMP\)](#). Cafodd nifer o [ddogfennau ategol](#) eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r cynllun hwn (Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Adendwm a'r Crynodeb o'r Newidiadau). Y weminar oedd y cyfle cyntaf i gysylltu ag aelodau'r grŵp ar ôl mabwysiadu, ateb unrhyw gwestiynau a allai fod ganddynt ac ystyried prosesau wrth fynd rhagddo. Yn unol â Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir, daw'r cynllun i rym yn statudol o 12 Tachwedd 2019 a chafodd yr aelodau eu hysbysu ar y diwrnod.
2. Roedd [Porth Cynllunio Morol](#) diwygiedig yn cyd-fynd â'r cynllun ac roedd yn cynnwys haenau data newydd a pholisïau'r cynllun a fabwysiadwyd. Bydd dogfennau eraill yn cael eu cyhoeddi eleni gan gynnwys Arfarniad o Gynaliadwyedd y Datganiad Ôl-fabwysiadu, Crynodeb o'r Weledigaeth, yr Amcanion a'r Polisïau, Trosolwg o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru ac animeiddiad wedi'i ddiweddarau.
3. Yn dilyn adborth gan randdeiliaid mae'r Canllawiau ar Gyflawni wedi'u rhoi ar wahân i'r Cynllun fel y gallant gael eu diwygio ar wahân i'r cynllun statudol. Mae'r Canllawiau ar Gyflawni yn ganllawiau anstatudol ac yn "ystyriaeth berthnasol" wrth wneud penderfyniadau, ond mae ganddynt lai o ddylanwad na'r polisïau a chanllawiau yn y cynllun ei hun. Mae'r grŵp hwn wedi gweld y canllawiau cychwynnol ym mis Chwefror a'r fersiwn ddilynol ym mis Mai. Ers hynny mae'r canllawiau drafft wedi'u diwygio er mwyn sicrhau eu bod yn eglur a bod modd eu defnyddio'n ymarferol a'u profi gyda thîm Trwyddedu Cyfoeth Naturiol Cymru. Bydd y Canllawiau ar Gyflawni wedi'u diweddarau yn cael eu cylchredeg i'r grŵp eu hystyried maes o law.
4. Bellach gan fod Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru wedi'i fabwysiadu bydd angen i bob Awdurdod Cyhoeddus Perthnasol ystyried sut y maen nhw'n sicrhau eu bod yn cydymffurfio â pholisi Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru. Bydd staff cynllunio morol Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gwaith o weithredu'r cynllun lle bynnag y bo'n bosibl.
5. Mae'r gwaith ymgysylltu wedi dechrau gyda'r Awdurdodau Cyhoeddus Perthnasol gyda dyletswyddau o fath penderfyniad MCAA S58.1 yn cael eu blaenoriaethu. Tîm trwyddedu Cyfoeth Naturiol Cymru yw defnyddiwr mwyaf y cynllun morol, o ran cyhoeddi trwyddedau morol, ac mae'r tîm cynllunio morol wedi cynnal sesiwn gychwynnol gyda'r tîm Trwyddedu.

Ymholiadau at: Rebecca.Rees2@llyw.cymru

6. Mae darn o waith wedi'i gomisiynu gan ymgynghorwyr i fapio'r holl benderfyniadau perthnasol a wneir gan Awdurdodau Cyhoeddus Perthnasol, gan adeiladu ar y gwaith a gomisiynwyd gan y Sefydliad Rheoli Morol ar gyfer cynlluniau Lloegr.

Mae'r cyfarfod wyneb yn wyneb nesaf wedi'i gynllunio ar gyfer mis Chwefror 2020.